Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddi 2023

## Beth rydyn ni wedi ei wneud, a phwy wnaethon ni benderfynu rhoi cyllid iddyn nhw

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cyngor Celfyddydau Cymru, Adolygiad Buddsoddi 2023: Adroddiad a Phenderfyniadau**'

**Medi 2023**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 36**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** celf.cymru

**Ebost:** cyfathrebu@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

**Testun:** 07797 800504

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbolau 403527247**

# Contents


Cyflwyniad .... 4

Beth rydyn ni wedi ei wneud .... 7

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod .... 12

Beth fydd yn digwydd nesaf .... 26

Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf .... 30

Ein penderfyniadau .... 33

Geiriau anodd .... 36


# Cyflwyniad

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Ein rôl ni ydy cefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.




Rydyn ni yn gyfrifol am roi arian i sefydliadau celfyddydol. Mae’r arian yma yn dod oddi wrth:

- Llywodraeth Cymru
- a'r Loteri Genedlaethol.




Rydyn ni yn rhoi arian i sefydliadau ac unigolion fel eu bod nhw yn gallu ein helpu i gyflawni'r nodau sydd yn ein **cynllun strategol**.




Rydyn ni yn rhoi arian ar gyfer prosiectau.



Rydyn ni hefyd yn rhoi arian i dalu am brif gostau rhedeg rhai sefydliadau drwy ein **Hadolygiad Buddsoddi.**




Mae hyn yn meddwl bod sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn gallu defnyddio arian **Adolygiad Buddsoddi** i dalu am bethau fel:

- cyflogau staff
- gwresogi
- a rhent.




Maen nhw hefyd yn gallu defnyddio'r arian i wneud eu gwaith a rhedeg prosiectau celfyddydol.



Yr **Adolygiad Buddsoddi** ydy'r broses rydyn ni’n mynd drwyddi i benderfynu:

- pwy ddylai gael yr arian yma,
- a faint y dylen nhw ei gael.




Mae'r ddogfen yma am ein **Hadolygiad Buddsoddi** yn 2023. Mae'r ddogfen yma yn dweud:

- Beth rydyn ni wedi ei wneud.
- Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.
- I bwy rydyn ni wedi penderfynu rhoi arian **Adolygiad Buddsoddi.**

# Beth rydyn ni wedi ei wneud




Rydyn ni fel arfer yn cynnal **Adolygiad Buddsoddi** bob 5 mlynedd.



O'r blaen, roedd gennym ni grŵp o sefydliadau celfyddydol roedden ni yn rhoi arian iddyn nhw bob blwyddyn. Fe wnaethon ni alw'r grŵp yma yn **Bortffolio Celfyddydau Cymru**.




Fe wnaethon ni gynnal ein **Hadolygiad Buddsoddi** diwethaf yn 2015.




Roedden ni i fod i gynnal **Adolygiad Buddsoddi** yn 2020. Cafodd hyn ei ohirio oherwydd Covid.



Mae Covid wedi newid llawer o bethau i ni i gyd. Mae'n newid y ffordd rydyn ni yn meddwl ac yn gweithio. Rydyn ni wedi dysgu llawer iawn.



Fe wnaethon ni benderfynu newid y ffordd rydyn ni yn gwneud **Adolygiad Buddsoddi**.



Rydyn ni eisiau i hyn fod y tro olaf y byddwn ni'n gwneud **Adolygiad Buddsoddi** mawr.



Rydyn ni eisiau newid er mwyn i ni allu bod yn fwy hyblyg. Mae hyn yn meddwl ein bod yn gallu gwneud pethau fel:

- Newid pethau pan nad ydyn nhw yn gweithio.
- Rhoi arian i sefydliadau am gyfnod hirach pan fyddan nhw yn cyflawni ein nodau.




Fe fyddwn ni nawr yn cynnig **cyllid aml-flwyddyn** yn fwy aml. Mae'r arian yma yn cael ei roi dros nifer o flynyddoedd.



Fe fydd sefydliadau yn cael cyfle i wneud cais am gyllid am 3 blynedd ar y tro. Ac fe fydd cyfle i gael 3 blynedd arall o arian os ydyn nhw yn cyrraedd eu targedau.

# Sut rydyn ni yn gwneud ein penderfyniadau




Rydyn ni wedi defnyddio **6 egwyddor** i benderfynu i bwy i roi ein harian **Hadolygiad Buddsoddi**.



Mae'r 6 egwyddor yn feysydd yn y celfyddydau y mae angen i ni ganolbwyntio arnyn nhw. Y 6 egwyddor ydy:



1. **Creadigrwydd** – Rydyn ni eisiau gweithio gyda sefydliadau sy'n gweithio mewn ffyrdd creadigol a newydd. Rydyn ni eisiau iddyn nhw ddangos sut maen nhw wedi meddwl am eu cynulleidfa.



2. **Ehangu ymgysylltiad** – Rydyn ni eisiau gweithio gyda sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio gyda phobl sydd yn aml yn cael eu gadael allan o'r celfyddydau.




3. **Y Gymraeg** – Rydyn ni eisiau i'r Gymraeg fod yn rhan bwysig o'r celfyddydau yng Nghymru.



**4. Cyfiawnder hinsawdd** – Rydyn ni eisiau gweithio gyda sefydliadau celfyddydol sy'n siarad am **gyfiawnder hinsawdd** ac yn dangos pa mor bwysig ydy hynny.




Mae **cyfiawnder hinsawdd** yn meddwl darganfod ffyrdd o ddelio gyda'r argyfwng hinsawdd sydd yn:

- helpu i leihau'r niwed rydyn ni yn ei wneud ac edrych ar ôl ein planed
- a hefyd gwneud y byd yn lle mwy teg i bawb.



**5. Meithrin talent** – Rydyn ni eisiau rhoi cyfle teg i bobl ifanc a phobl o wahanol gefndiroedd. Rydyn ni eisiau rhoi'r gefnogaeth maen nhw ei angen i ddod yn artistiaid neu i wneud swyddi eraill yn y celfyddydau.



**6. Trawsnewid** – Rydyn ni eisiau gweithio gyda sefydliadau sy'n barod i weithio'n wahanol i wneud pethau'n well.



Fe wnaethon ni ofyn i sefydliadau ddweud wrthyn ni sut mae eu gwaith yn cyrraedd y **6 egwyddor**.



Fe wnaethon ni hefyd ddefnyddio **5 ffactor cydbwyso** i helpu i wneud ein penderfyniadau. Y **5 ffactor cydbwyso** ydy pethau sy'n ateb anghenion Cymru gyfan. Dyma’r 5 ffactor:

1. **Cymunedau sy'n gwasanaethu ar draws Cymru** – Rydyn ni eisiau cyrraedd pob cymuned. Yn enwedig cymunedau sydd ddim fel arfer yn cael llawer o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau.

2. **Llawer o wahanol gelfyddydau a ffyrdd o gymryd rhan** - Gweithio mewn gwahanol ffyrdd fel bod mwy o bobl yn gallu mwynhau mwy o fathau o gelfyddydau.

3. **Gwneud i bob llais gael ei glywed** – Rydyn ni eisiau cefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau sydd wedi cael llai o gyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau yn y gorffennol.

4. **Gwerth am arian** - Mae gennym ni gyfrifoldeb i bobl Cymru i wneud yn siŵr ein bod yn rhoi’r arian maen nhw ei angen i sefydliadau. A gwario arian yn ddoeth.

5. **Maint y sefydliadau** – Rydyn ni eisiau rhoi arian i sefydliadau o bob maint gwahanol. Mawr a bach.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Rydyn ni wedi cael 139 o geisiadau gan sefydliadau oedd yn addas ar gyfer arian **Adolygiad Buddsoddi**.



Fe wnaethon ni gael ceisiadau newydd gan sefydliadau rydyn ni wedi'u cefnogi gyda'n cyllid prosiect.



Mae sefydliadau rydyn ni’n rhoi arian iddyn nhw bellach wedi dangos eu gallu i newid. Maen nhw yn enghreifftiau gwych o sut mae sefydliadau yn gallu ateb anghenion pobl.



Rydyn ni wedi cael ein plesio'n fawr gan gryfder y celfyddydau yng Nghymru.



Does gennym ni ddim digon o arian i roi arian i bawb. Rydyn ni wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd.



Dim ond i 13 o sefydliadau roedden ni’n gallu cynnig y swm llawn o arian roedden nhw wedi gofyn amdano. Fe fydd llawer o sefydliadau'n cael llai na beth roedden nhw wedi gofyn amdano.



Rydyn ni yn rhoi arian i sefydliadau newydd mewn gwahanol rannau o Gymru.



Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n cael llawer o arian wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Mae llawer o'r sefydliadau yma yn gwasanaethu Cymru gyfan.



Fe fyddwn ni yn parhau i weithio i gyrraedd mwy o gymunedau yng Nghymru.

.

# 6 egwyddor

## 1. Creadigrwydd



Roedd llawer o syniadau da ar gyfer creu a chyflwyno'r celfyddydau mewn gwahanol ffyrdd.



Fe fydd mwy o gyfleoedd i **weithwyr llawrydd**. Mae **gweithiwr llawrydd** yn rhywun sy'n gweithio iddyn nhw eu hunain neu'n cael eu cyflogi gan sefydliadau am rai swyddi.



Mae llawer o gyfleoedd da i bobl ar draws Cymru fwynhau'r celfyddydau gweledol - fel paentiadau, cerfluniau, a ffilm.



Mae yna bethau cyffrous yn digwydd yn y theatr. Mwy o gyfleoedd:

- ar gyfer pobl anabl
- a theatr Gymraeg.



Penderfyniad enfawr oedd peidio cynnig cyllid aml-flwyddyn i National Theatre Wales.



Fe fyddwn ni yn parhau i edrych ar theatr Saesneg yng Nghymru. Fe fyddwn ni yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod cymaint o bobl â phosibl yng Nghymru yn gallu gweld cynyrchiadau o safon uchel.



Rydyn ni eisiau rhoi mwy o arian i:

- celf weledol – fel paentio, cerflunio a ffilm
- lleoliadau
- cerddoriaeth
- dawns.

## 2. Ehangu ymgysylltiad



Fe wnaeth llawer o sefydliadau fanteisio ar y cyfle i edrych ar yr egwyddor yma mewn ffordd onest. Maen nhw eisiau gwneud yn well.



Doedd llawer o geisiadau ddim yn gwneud digon i greu mwy o gyfleoedd i bobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac ethnig.



Roedd llawer o geisiadau da ar gyfer gwella cyfleoedd i bobl ifanc.



Mae angen i ni wneud mwy o waith i gael mwy o bobl ifanc mewn swyddi arwain a gwneud penderfyniadau.



Mae mwy o sefydliadau'n ystyried gweithio gyda phartneriaid i gynnwys mwy o bobl yn eu gwaith..

## 3. Y Gymraeg




Mae llawer o sefydliadau'n gweithio'n galed i ddilyn canllawiau iaith Gymraeg.



Roedd mwy o sefydliadau dan arweiniad y Gymraeg hefyd.



Rydyn ni eisiau cefnogi sefydliadau celfyddydol i weithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, gweithio gyda'n gilydd i hyfforddi staff sy'n siarad Cymraeg.



Mae angen i ni wneud mwy i sicrhau bod sefydliadau'n gwerthfawrogi'r Gymraeg.



Mae angen i ni ddysgu mwy am sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio. A chytuno ar ddiffiniadau fel ein bod yn mesur pa mor dda rydyn ni yn ei wneud.



Mae llawer o sefydliadau yn dibynnu gormod ar bartneriaid i'w helpu i ddod â'r Gymraeg i'w gwaith.

## 4. Meithrin talent



Mae llawer o sefydliadau'n canolbwyntio mwy ar bobl ifanc.




Mae llawer o sefydliadau wedi bod yn siarad am ddatblygu sgiliau. Er enghraifft, mewn marchnata, sgiliau theatr a chyrraedd cymunedau newydd. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gefnogi sefydliadau i wneud hyn.

## 5. Cyfiawnder hinsawdd





Yn ein canllawiau ar gyfer yr arian yma, fe wnaethon ni ddweud ein bod yn deall y byddai hwn yn faes newydd i'r rhan fwyaf o sefydliadau.



Roedd sefydliadau yn onest ac yn agored am eu gwaith.



Dyma faes newydd i ni hefyd. Rydyn ni’n gallu dysgu llawer o beth mae sefydliadau'n ei wneud.




Mae gan lawer o sefydliadau gynlluniau ar waith yn barod i wneud yn siŵr bod eu gwaith yn well i'r amgylchedd.



Mae llawer o sefydliadau yn defnyddio'r amgylchedd fel thema yn eu gwaith nawr. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r problemau.

Mae angen i ni wneud mwy o waith yn y maes yma er mwyn:



- Ymchwilio i bethau fel **allyriadau carbon**.

> **Allyriadau carbon** ydy pan mae carbon yn cael ei ollwng, yn aml drwy bethau mae pobl yn ei wneud fel llosgi tanwydd ffosil fel glo neu nwy.
>
> Pan mae carbon yn cael ei ollwng mae'n creu carbon diocsid, sydd yn nwy sydd yn achosi newid hinsawdd.

- Deall sut rydyn ni'n gallu cefnogi sefydliadau celfyddydol yn well.

- Hyfforddi sefydliadau ar y materion.

## 6. Trawsnewid



Fe wnaeth rhai sefydliadau ddangos yn glir eu bod nhw eisiau gwneud hyn yn rhan o'u ffordd arferol o weithio.



Roedden ni yn teimlo y dylai rhai sefydliadau rydyn ni wedi rhoi arian iddyn nhw yn y gorffennol fod yn gwneud mwy.



Mae llawer o sefydliadau angen staff newydd i helpu gyda'r maes yma. Fe fydd llawer ohonom ni angen cefnogaeth hefyd.



Mae'r sefydliadau rydyn ni wedi dewis rhoi arian iddyn nhw wedi dangos i ni:

- Sut maen nhw wedi newid.
- Sut maen nhw wedi delio â heriau.
- Sut maen nhw'n dysgu ac yn parhau i newid i ateb anghenion.

# Ffactorau Cydbwyso

## Cefnogi cymunedau ar draws Cymru



Rydyn ni yn ariannu mwy o waith yng Nghaerdydd nag mewn ardaloedd eraill. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod mwy o sefydliadau sy'n cael llawer o arian wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.



Rydyn ni’n gwybod bod hyn yn effeithio ar ein gwaith mewn cymunedau eraill.



Fe fydd rhai cymunedau mewn ardaloedd cefn gwlad yn derbyn swm da o arian. Er enghraifft, Ceredigion a Gwynedd.



Roedd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd. Wnaethon ni ddim rhoi arian i rai sefydliadau mewn ardaloedd lle rydyn ni eisiau gwneud mwy o waith. Mae hyn oherwydd nad oedden nhw yn bodloni'r 6 egwyddor, a rhai eraill.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru mewn rhai ardaloedd lle mae angen i ni wneud mwy o waith. Er enghraifft Blaenau Gwent, Torfaen, Conwy a Sir Ddinbych.

## Llawer o wahanol gelfyddydau a ffyrdd o gymryd rhan



Rydyn ni'n gweld pethau cyffrous yn digwydd yn y Celfyddydau ac Iechyd.



Mae gwaith da yn digwydd mewn ffurfiau celf newydd a chymysg. Fel ffilm, syrcas a digidol.



Mae angen i ni edrych ar sut rydyn ni yn cefnogi dawns dros y blynyddoedd nesaf. Yn enwedig mewn dawns gymunedol a dawns Gymraeg.



Rydyn ni yn rhoi llai o arian i'r theatr, ond rydyn ni yn cefnogi mwy o sefydliadau theatr.

## Gwneud yn siŵr bod pob llais yn cael ei glywed



Rydyn ni wedi gallu cynnig cyllid aml-flwyddyn i sefydliadau dan arweiniad pobl o wahanol gefndiroedd.



Mae mwy o sefydliadau yn canolbwyntio ar anabledd. Fe fyddwn ni yn dysgu oddi wrthyn nhw i wella ein gwaith ein hunain.



Nifer fach o sefydliadau sydd o hyd dan arweiniad pobl Ddu. Fe fyddwn ni yn parhau i weithio ar hyn.



Fe fyddwn ni yn cefnogi sefydliadau sydd ddim wedi cael arian **Adolygiad Buddsoddi**. Mae ganddyn nhw y gallu i wneud gwaith da yn y maes yma.



Mae llawer o sefydliadau rydyn ni yn rhoi arian iddyn nhw yn barod yn gweithio i gael pobl o wahanol gefndiroedd i gymryd rhan yn eu gwaith.

## Gwerth am arian



Mae'n rhaid i ni roi arian i sefydliadau sy'n gallu darparu'r buddion mwyaf i bobl Cymru.



Mae argyfwng costau byw wedi bod yn galed ar y celfyddydau. Mae llawer o sefydliadau'n cael llai o arian gan awdurdodau lleol nawr.



Mae llawer o sefydliadau bellach yn chwilio am arian i logi staff sydd yn gallu helpu gyda chodi arian.



Rydyn ni yn credu bod hyn yn syniad da. Ond, dydyn ni ddim wedi gallu cynnig cynnydd mewn arian i gefnogi hyn mewn llawer o achosion. Roedden ni eisiau canolbwyntio ar roi arian i sefydliadau mwy **amrywiol**.

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn gwahanol bethau.

## Maint y sefydliadau




Rydyn ni yn ariannu 23 o sefydliadau newydd.



Rydyn ni yn cynnig arian i sefydliadau o wahanol faint. Maen nhw'n gallu cyrraedd nifer wahanol o bobl.



Rydyn ni yn rhoi arian i sefydliadau sy'n gallu:

- goruchwylio a chynllunio gwaith
- cyflawni rhai gweithgareddau.




Mae rhai sefydliadau yn gweithio ar draws y byd.



Rydyn ni yn rhoi arian i rai sefydliadau sy'n tyfu'n fwy.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?




Fe fydd pob sefydliad sydd wedi gwneud cais am arian yn cael adroddiad. Fe fydd hyn yn egluro ein penderfyniad a'r camau nesaf.

## Sefydliadau llwyddiannus




Mae unrhyw gynnig rydyn ni yn ei wneud yn dibynnu ar sefydliadau sy'n cytuno i'n telerau.



Mae cynigion yn gallu newid. Mae'n dibynnu ar yr arian rydyn ni yn ei gael gan Lywodraeth Cymru.



Pan fydd sefydliadau wedi meddwl am ein cynnig, fe fyddwn ni yn siarad gyda nhw am beth maen nhw’n gallu ei wneud.



Fydd llawer o sefydliadau ddim yn cael cael y swm llawn y maen nhw wedi gofyn amdano. Efallai y bydd angen iddyn nhw newid eu cynlluniau.



Fe fyddwn ni yn siarad am y camau rydyn ni eisiau eu gweld fwyaf. Fe fyddwn ni yn siarad am edrych i weld cynnydd.




Fe fydd arian yn cael ei gytuno erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Fe fydd yr arian yn dechrau ym mis Ebrill 2024.

# Sefydliadau sydd ddim wedi bod yn llwyddiannus



Mae sefydliadau dydyn ni ddim yn cynnig arian **Adolygiad Buddsoddi** iddyn nhw yn gallu parhau i wneud cais i'n cronfeydd eraill.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda sefydliadau i'w cefnogi.



Fe fydd sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru sydd ddim wedi cael cynnig arian **Adolygiad Buddsoddi**, yn gallu gwneud cais am **Gyllid Pontio**.

**Cyllid pontio** ydy arian sydd yn cael ei roi i sefydliadau i'w helpu nhw i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

# Apeliadau



Mae apêl yn gofyn i ni edrych ar ein penderfyniadau. Mae sefydliadau yn gallu apelio os oes ganddyn nhw dystiolaeth nad ydyn ni wedi bod yn deg. Er enghraifft, oherwydd:

- dydyn ni ddim wedi dilyn ein proses yn iawn
- rydyn ni wedi camddeall rhan o'u cais
- doedden ni ddim wedi meddwl am wybodaeth bwysig roedden ni wedi dweud y bydden ni yn meddwl amdano.




Mae gan sefydliadau 21 diwrnod o gael ein penderfyniad i apelio.




Fe fydd rhywun o'r tu allan i Gyngor Celfyddydau Cymru yn edrych ar yr apêl. Fe fyddan nhw'n penderfynu a fydd yr apêl yn cael ei chlywed.



Os ydy hi’n cael ei chlywed, fe fydd cyfarfod o fewn 28 diwrnod. Fe fyddwn ni yn cael gwybod am eu penderfyniad o fewn 7 diwrnod ar ôl y cyfarfod.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf



Fe fyddwn ni yn defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod **Adolygiad Buddsoddi** yma i helpu i ysgrifennu ein **cynllun strategol**.




Ein **cynllun strategol** ydy ein cynllun ar gyfer ein gwaith dros y 10 mlynedd nesaf. Fe fyddwn ni yn cyhoeddi hyn yn 2024.

Yn seiliedig ar beth rydyn ni wedi ei ddysgu yn ystod yr **Adolygiad Buddsoddi** yma, fe fyddwn ni yn:



1. Edrych i gefnogi'r celfyddydau gweledol yn 2025 i 2026.



2. Edrych ar theatr Saesneg yng Nghymru.



3. Parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi cerddoriaeth a chrewyr sydd ddim yn cael llawer o gyllid.



4. Edrych ar y gefnogaeth rydyn ni'n ei gynnig i gerddoriaeth draddodiadol. Meddwl am yr arian fydd ei angen yn y dyfodol.



5. Edrych ar ddawns yng Nghymru. Yn enwedig dawnsio cymunedol.



6. Edrych ar sut rydyn ni’n gallu cefnogi celfyddydau awyr agored yn 2025 i 2026.



7. Creu rhwydweithiau i helpu artistiaid i gefnogi ei gilydd a rhannu sut orau i gyrraedd mwy o gymunedau.



8. Cefnogi RAMPS Cymru. Maen nhw'n gweithio i gynnwys pobl anabl yn y theatr.



9. Adeiladu ar y gwaith mae ein Hwylusydd Cymraeg yn ei wneud.



10. Gweithio gyda phartneriaid fel Cymru Greadigol i gynnig hyfforddiant i sefydliadau celfyddydol.



11. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i dalu am ymchwil ar faterion **cyfiawnder hinsawdd**.



12. Rhoi arian mewn hyfforddiant a datblygu sgiliau, a fydd yn helpu sefydliadau i gyflawni eu nodau **cyfiawnder hinsawdd**.



13. Datblygu adnoddau cymorth busnes a hyfforddiant i sefydliadau. Eu cefnogi i barhau i newid drwy'r amser.



14. Gweithio gydag awdurdodau lleol i weld sut rydyn ni'n gallu gweithio gyda'n gilydd. Fe fydd hyn yn ein helpu i ddod â'r celfyddydau i bawb.

# Ein penderfyniadau

Fe fyddwn ni yn cynnig arian i'r sefydliadau ar y rhestr yma:

| | |
|---|---|
| Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth | £544,628 |
| Arad Goch | £352,048 |
| Artes Mundi | £150,164 |
| Artis Community Cymuned | £202,935 |
| Gofal Celf | £134,893 |
| Cysylltiad Celfyddydau | £66,174 |
| Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen | £250,000 |
| Ballet Cymru | £750,000 |
| Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC | £817,111 |
| Sefydliad y Glowyr Coed Duon | £131,300 |
| Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful (Soar) | £100,000 |
| Canolfan Gerdd William Mathias | £81,445 |
| Celfyddydau Chapter | £400,000 |
| Celfyddydau Citrus | £100,000 |
| Cyfoeth Cyffredin | £200,000 |
| Cerddoriaeth Gymunedol Cymru | £100,000 |
| Creu Cymru | £75,000 |
| Cwmni'r Fran Wen | £350,000 |
| Dawns i Bawb | £100,000 |
| Celfyddydau Anabledd Cymru | £200,000 |
| Oriel Elysiwm | £120,000 |
| Ffilm Cymru | £1,436,630 |
| Ffotogallery | £202,439 |
| Fio | £20,000 |

| | |
|---|---|
| Focus Wales | £100,000 |
| g39 | £140,000 |
| Galeri Caernarfon | £320,942 |
| Canolfan Gelfyddydol Glynn Vivian | £127,257 |
| Hijinx | £400,000 |
| It’s My Shout | £80,000 |
| Jukebox Collective | £280,000 |
| Llenyddiaeth Cymru | £753,306 |
| Live Music Now Cymru | £45,812 |
| Canolfan Centre | £86,535 |
| Mission Gallery9 | £6,715 |
| Mostyn | £395,005 |
| Music Theatre Wales | £222,191 |
| Mwldan | £271,865 |
| Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru | £846,596 |
| Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru | £450,000 |
| NoFit State Circus | £197,503 |
| Operasonic | £81,000 |
| Oriel Davies | £227,128 |
| Oriel Myrddin | £47,849 |
| Oriel Plas Glyn Y Weddw | £75,000 |
| Peak | £78,780 |
| People Speak Up | £75,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Pontardawe | £64,137 |
| Pontio | £284,285 |
| PYST | £60,000 |
| Theatrau RCT | £153,065 |
| Re-Live | £80,000 |
| Theatr Glan-yr- Afon | £75,000 |

| | |
|---|---|
| Canolfan Grefftau Rhuthun | £395,005 |
| Theatr y Sherman | £1,142,749 |
| Sinfonia Cymru | £221,065 |
| Small World Theatre | £60,000 |
| Span Arts | £100,000 |
| Tabernacl (Neuadd Ogwen) | £125,000 |
| Taking Flight Theatre | £295,000 |
| Tanio | £177,753 |
| Theatr Bara Caws | £310,503 |
| Theatr Brycheiniog | £197,503 |
| Theatr Clwyd | £1,829,792 |
| Theatr Felinfach | £61,084 |
| Theatr Genedlaethol | £1,044,883 |
| Theatr Iolo | £260,569 |
| Theatr na nÓg | £320,795 |
| Theatrau Sir Gar | £50,000 |
| Torch Theatre | £650,000 |
| Ty Cerdd | £300,000 |
| Ty Pawb | £200,000 |
| Ucheldre | £76,355 |
| Urban Circle | £275,000 |
| Valleys Kids | £200,000 |
| Volcano Theatre | £212,317 |
| Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant | £100,000 |
| Canolfan Mileniwm Cymru | £3,590,552 |
| Opera Cenedlaethol Cymru | £4,100,000 |
| Canolfan Gelfyddydau Wyeside | £30,000 |
| Ystradgynlais, The Welfare | £95,000 |

# Geiriau anodd

## Allyriadau carbon

Allyriadau carbon ydy pan fydd carbon yn cael ei ollwng, yn aml trwy bethau mae pobl yn ei wneud fel llosgi tanwydd ffosil fel glo neu nwy. Pan mae carbon yn cael ei ollwng mae'n creu carbon deuocsid, sy'n nwy sy'n achosi newid hinsawdd.

## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn gwahanol bethau.

## Cyfiawnder hinsawdd

Mae cyfiawnder hinsawdd yn meddwl dod o hyd i ffyrdd o ddelio â'r argyfwng hinsawdd drwy:

- helpu i leihau'r niwed rydyn ni yn ei wneud ac edrych ar ôl ein planed
- mae hefyd yn gwneud y byd yn lle mwy teg i bawb.

## Cyllid pontio

Cyllid pontio ydy arian sydd yn cael ei roi i sefydliadau i'w helpu nhw i gynllunio ar gyfer y dyfodol.